IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 20 IONAWR 2017

Present: County Councillor Parry(Chairperson)
County Councillors Kelloway a/ac Murphy

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

5 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - CLWB CAMEO, PLASNEWYDD

Ymgeisydd: Huw Davies, The Pontcanna Pub Company (Trading) Limited mewn perthynas â Cameo Club, 55 Wellfield Road, Y Rhath, Caerdydd, CF24 3PA.

Partïon â Diddordeb Y Cynghorydd Sue Lent
Ms. Frances Dredge

**Y Cais**

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle The Pontcanna Pub Company (Trading) Limited mewn perthynas â Cameo Club, 55 Wellfield Road, Y Rhath, Caerdydd, CF24 3PA.

Amodau cyfredol sydd ynghlwm y Drwydded Safle:

1 Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

- Perfformio cerddoriaeth fyw (dan do)
- Perfformio cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do)
- Gwerthu alcohol i'w yfed AR ac ODDI AR y safle

2 Oni bai y nodir fel arall gall y safle agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac unrhyw oriau canlyniadol i'r amseroedd ansafonol:

Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 00:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 08:00 tan 00:30

Ni fydd aelod o'r cyhoedd yn cael neu â chaniatâd i aros yn ardal gefn allanol yr eiddo rhwng 20.00 a 10.00 ar unrhyw ddiwrnod.

3 Caniateir y safle i gynnig gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

- Perfformio cerddoriaeth fyw (dan do)
  Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 00:00
  Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 08:00 tan 00:30

- Perfformio cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do)
  Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 00:00
  Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 08:00 tan 00:30

- Gwerthu alcohol i'w yfed AR ac ODDI AR y safle
  Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 23:30
  Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 08:00 tan 00:00

4. Cyflwynwyd y cais canlynol i amrywio.

   Amrywio'r amod yn ymwneud â'r ardal allanol yng nghefn y safle i'w alluogi i aros ar agor i'r cyhoedd o 09:30 tan 21:00 (10:00 tan 20:00 ar hyn o bryd).

**<u>Sylwadau Partïon â Diddordeb</u>**

Clywodd y Pwyllgor gan Ms Dredge, preswylydd sy'n byw llai na 10 metr o'r Cameo Club ei bod wedi'i synnu i fod yn y pwyllgor eto gan y penderfynir ar yr oriau trwyddedu cyfredol lai na 2 flynedd yn ôl  Dywedodd Ms Dredge fod yn rhaid iddi fyw gyda sŵn o'r Cameo Club am 10 awr y dydd, yn enwedig yn ystod yr haf ac mae'n tarfu arni hin ac eraill yn wael; yn enwedig y teuluoedd hynny gyda phlant ifanc sy'n gweithio patrymau shifft neu sy'n gweithio gartref/  Dywedodd Ms Dredge hefyd i breswylwyr dderbyn penderfyniad yr is-bwyllgor ac yn byw gyda'r oriau wedi'u cymeradwyo; plediodd i beidio â throi'r fantol ymhellach trwy ymestyn yr oriau hynny.

Siaradodd y Cynghorydd Sue Lent â'r pwyllgor gan ddweud y penderfynwyd llai na 2 flynedd yn ôl y gallai'r ymgeisydd aros ar agor tan 20.00pm yn unig; ailadroddodd yr effaith y mae'r sŵn a'r aflonyddwch yn ei gael ar weithwyr shifftiau a theuluoedd â phlant ifanc; nid yn unig gan y sŵn o'r teras awyr agored ond hefyd o'r danfoniadau a chasgliadau poteli.

Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi'i synnu gan y gwrthwynebiadau wedi'u derbyn gan ei fod yn ystyried bod ganddo berthynas da gyda'r preswylwyr a chymdogion. Dywedodd fod ganddyn nhw i gyd ei rif cyswllt uniongyrchol ac nid oes un ohonynt wedi'i ffonio i gwyno am y teras awyr agored fel y maen nhw wedi'i wneud o ran y casgliad poteli; nododd fod y mater ynghylch amseroedd casgliadau poteli wedi'i ddatrys.

Gan ymateb i sylwadau na fyddai pwynt cwyno am sŵn ar y teras gan nad oes modd gwneud dim am y peth , dywedodd Mr Davies fod ganddo TCC, nad yw erioed wedi torri amodau ei drwydded ac nad yw erioed wedi derbyn cwyn am y sŵn.  Dywedodd hefyd ei fod yn byw 400m i ffwrdd o'r safle, yn cyflogi 21 aelod o staff lleol ac â chefnogaeth llawer o'r preswylwyr a chymdogion.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am lefel y sŵn ac a yw'n anodd byw gydag ef; dywedodd Mr Dredge fod sŵn cyson o wydrau a lleisiau, sy'n dod yn fwy uchel wrth i fwy o alcohol yn cael ei yfed.  Dywedodd na all gadw ei ffenestri ar agor, defnyddio'r ystafelloedd ym mlaen ei thŷ na chlywed y teledu'n dda iawn ym misoedd yr haf; dywedodd hefyd na all barcio y tu allan i'w thŷ i ddadlwytho siopa os oes danfoniad ac na all gysgu'n hwyr ar y penwythnos o ganlyniad i boteli'n cael eu casglu.

Gan ymateb i gwestiwn am pam nad yw hi wedi cwyno am hyn i Reoli Llygredd Sŵn, dywedodd Ms Dredge ei bod yn byw gyda'r penderfyniad a wnaethpwyd, ac nad yw'n ymwybodol y gallai cwyno unwaith y mae'r drwydded wedi'i chymeradwyo.

**<u>Sylwadau'r Ymgeisydd.</u>**

Dywedodd Mr Davies ei fod wedi bod yn drwyddedwr ers 1999; mae'n berchen ar y Cameo Clwb ym Mhontcanna ac â safleoedd yng Nghanolfan y Mileniwm Dywedodd, wrth wneud cais am y drwydded yn Wellfield Road, fod yr is-bwyllgor Trwyddedu wedi rhoi oriau trwyddedu yn unol â Chynllunio tan 20.00pm,; mae bellach ganddo gais cynllunio llwyddiannus tan 21.00pm, yn wreiddiol roedd am fod ar agor tan 21.30pm ond newidiodd hyn ar ôl cais gan gymydog.

Dywedodd fod dim gwrthwynebiadau wedi'u codi gan awdurdodau cyfrifol; dywedodd fod preswylwyr yn gwbl ymwybodol y gallen nhw godi unrhyw faterion gyda Llygredd Sŵn gan eu bod wedi defnyddio'r llwybr hwn pan oedd problem gydag offer echdynnu'r Gegin ac oedd yn rhaid gosod distewydd.

Dywedodd Mr Davies ei fod yn trio bod yn rhagweithiol gyda phreswylwyr ac yn mynychu cymorthfeydd Cynghorwyr ac wedi rhoi ei rif uniongyrchol i breswylwyr. Ailadroddodd nad yw erioed wedi torri ei drwydded, na chwaraeir cerddoriaeth ar y teras, bod ganddo TCC ac y rheoli'r ardal yn llym.

Dywedodd fod y cais i ymestyn yr oriau ran 21.00pm yn unol â safleoedd eraill ar Wellfield Road a bod gan eraill drwyddedau hwyrach.

Mae materion blaenorol gydag amseroedd casgliadau biniau wedi'u datrys trwy newid contractwr.

Esboniodd Mr Davies y problemau y mae'n ei gael gyda pheidio â gallu cymryd archebion bwyd ar ôl 7.15pm, gan nad oes modd prosesu'r rhain bob amser erbyn 8pm.

**<u>Crynhoi</u>**

Dywedodd partïon â diddordeb eu bod yn byw gyda'r trefniadau presennol ac y byddai ymestyn yr oriau yn ormod. Mae oriau fel y maent a lefelau'r sŵn a'r aflonyddwch a brofir eisoes yn achosi straen mawr ar breswylwyr a gofynnon nhw fod y sefyllfa'n aros fel y mae hi i roi saib i breswylwyr ym misoedd yr haf ar ôl 20.00pm.

Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi bod yn gweithio gyda phreswylwyr i ddatrys unrhyw broblemau wedi'u codi gydag ef ac os bydd unrhyw faterion yn codi gyda sŵn o'r teras yna byddai'n gwneud yr un peth.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, gwrthodwyd yr Is-bwyllgor y cais.